OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1313

# Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 1

## CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "achos adran 83" ("*section 83 case*") yw achos lle bo person yn bwriadu dod â phlentyn, neu'n peri bod rhywun arall yn dod â phlentyn, i'r Deyrnas Unedig mewn amgylchiadau lle y mae adran 83 o'r Ddeddf (cyfyngiadau ar ddod â phlant i'r Deyrnas Unedig) yn gymwys;

mae i "asiantaeth fabwysiadu" yr ystyr a roddir i "adoption agency" yn adran 2(1) o'r Ddeddf;

ystyr "awdurdod cofrestru" ("*registration authority*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru(**1**);

ystyr "awdurdod tramor perthnasol" ("*relevant foreign authority*") yw person, sydd y tu allan i Ynysoedd Prydain yn cyflawni swyddogaethau yn y wlad lle y mae'r plentyn, neu yn lle y mae'r darpar fabwysiadydd yn preswylio'n arferol, sy'n cyfateb i swyddogaethau asiantaeth fabwysiadu neu i swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran mabwysiadau ag elfen dramor iddynt;

ystyr "CAFCASS" yw y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd(**2**);

yn y rheoliadau hyn, mae'r termau "cyflogi" a "chyflogaeth" yn cynnwys cyflogi person p'un ai am dâl neu beidio a boed o dan gontract gwasanaeth, contract ar gyfer gwasanaethau neu mewn modd nad yw o dan gontract;

mae i "cymdeithas fabwysiadu gofrestredig" yr ystyr a roddir i "registered adoption society" yn adran 2(2) o'r Ddeddf;

mae i "cynghorydd asiantaeth" ("*agency adviser*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 8;

ystyr "cynghorydd meddygol" ("*medical adviser*") yw'r person a benodwyd yn gynghorydd meddygol gan yr asiantaeth fabwysiadu yn unol â rheoliad 9;

mae i "cynllun lleoliad" ("*placement plan*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 36(2);

mae i "cynllun lleoliad mabwysiadu" ("*adoption placement plan*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 36;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(**1**) *Gweler* adran 5 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14).
(**2**) *Gweler* adran 11 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 p.43.

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn wyl y banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**3**).

mae i "dyfarniad o gymhwyster" ("*qualifying determination*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 28(4)(a);

mae i "gwasanaethau cymorth mabwysiadu" ("*adoption support services*") yr ystyr a roddir yn adran 2(6) o'r Ddeddf ac mewn rheoliadau a wneir o dan adran 2(6)(b) o'r Ddeddf;

Mae i "gwasanaeth mabwysiadu" yr ystyr a roddir i "adoption service" gan adran 2(1) o'r Ddeddf;

ystyr "gweithiwr cymdeithasol" ("*social worker*") yw person a gofrestrwyd mewn cofrestr a gynhelir gan Gyngor Gofal Cymru neu'r Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol o dan adran 56 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**4**) neu mewn cofrestr gyfatebol a gynhelir o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "hysbysu" ("*notify*") yw hysbysu yn ysgrifenedig;

mae i "lleoliad arfaethedig" ("*proposed placement*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 32(1);

ystyr "panel adolygu annibynnol" ("*independent review panel*") yw panel a ffurfiwyd o dan adran 12 o'r Ddeddf;

ystyr "panel mabwysiadu" ("*adoption panel*") yw panel a sefydlwyd yn unol â rheoliad 3;

ystyr "panel mabwysiadu ar y cyd" ("*joint adoption panel*") yw panel a sefydlwyd yn unol â rheoliad 3(5);

mae i "person annibynnol" ("*independent person*") o ran panel mabwysiadu yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 3;

ystyr "rhiant" ("*parent*"), mewn perthynas â phlentyn, yw unrhyw riant sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn o dan Ddeddf 1989.

mae i "swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh family proceedings officer" yn adran 35(4) o Ddeddf Plant 2004(**5**)); ac

mae i "swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol" yr ystyr a roddir i "social services functions" yn adran 1A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

# RHAN 2

## ASIANTAETH FABWYSIADU — TREFNIADAU AR GYFER GWAITH MABWYSIADU

### Sefydlu panel mabwysiadu

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu sefydlu o leiaf un panel, a elwir y panel mabwysiadu, yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benodi person i gadeirio'r panel, sef person na fu'n aelod etholedig, ymddiriedolwr, cyfarwyddwr neu'n gyflogai o'r asiantaeth o fewn y 12 mis diwethaf, sydd â'r sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer cadeirio'r panel mabwysiadu.

(**3**) 1971 p.80.
(**4**) 2000 p.14.
(**5**) 2004 p.31.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid bod dim mwy na deg aelod i'r panel mabwysiadu, gan gynnwys y person a benodwyd o dan baragraff (2), a rhaid iddo gynnwys —

(a) dau weithiwr cymdeithasol;

(b) yn achos cymdeithas fabwysiadu gofrestredig, person sy'n gyfarwyddwr, rheolwr neu'n swyddog arall o'r asiantaeth sy'n ymwneud â rheolaeth yr asiantaeth;

(c) yn achos awdurdod lleol, un aelod etholedig o'r awdurdod;

(ch) y person a benodwyd fel cynghorydd meddygol i'r asiantaeth yn unol â rheoliad 9, (neu un ohonynt os penodwyd mwy nag un cynghorydd meddygol), tra pery'r person hwnnw'n gynghorydd meddygol;

(d) o leiaf dri pherson arall (y cyfeirir atynt yn y rheoliad hwn fel “personau annibynnol”) gan gynnwys lle y bo'n rhesymol ymarferol o leiaf ddau berson â phrofiad personol o fabwysiadu.

(4) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benodi dau o aelodau'r panel mabwysiadu y bydd y naill neu'r llall yn gweithredu fel cadeirydd os yw'r person a benodwyd i gadeirio'r panel yn absennol neu os yw ei swydd yn wag (“yr is-gadeirydd”).

(5) Caniateir sefydlu'r panel mabwysiadu ar y cyd gan unrhyw ddau awdurdod lleol ond dim mwy na thri awdurdod lleol (“panel mabwysiadu ar y cyd”) ac os sefydlir panel mabwysiadu ar y cyd—

(a) mwyafswm nifer y personau y gellir eu penodi i'r panel hwnnw yw un ar ddeg;

(b) rhaid i bob awdurdod lleol benodi dau berson i'r panel, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn weithiwr cymdeithasol a rhaid i'r llall fod yn aelod etholedig o'r awdurdod hwnnw;

(c) drwy gytundeb rhwng yr awdurdodau lleol rhaid penodi—

(i) person i gadeirio'r panel nad yw'n aelod etholedig o unrhyw un o'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y panel ac y mae ganddo'r sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol i gadeiro'r panel mabwysiadu;

(ii) o leiaf dri aelod annibynnol gan gynnwys lle y bo'n rhesymol ymarferol o leiaf ddau berson â phrofiad personol o fabwysiadu;

(iii) dau o aelodau'r panel y bydd y naill neu'r llall yn gweithredu fel cadeirydd os yw'r person a benodwyd i gadeirio'r panel yn absennol neu os yw ei swydd yn wag (“yr is-gadeirydd”).

(iv) cynghorydd meddygol i un o'r awdurdodau.

(6) Rhaid peidio â phenodi person yn berson annibynnol ar banel mabwysiadu os yw'r person hwnnw—

(a) yn cael ei gyflogi neu wedi cael ei gyflogi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf —

(i) yn achos cymdeithas fabwysiadu gofrestredig, gan yr asiantaeth honno; neu

(ii) yn achos awdurdod lleol, gan yr awdurdod hwnnw i gyflawni unrhyw swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod hwnnw;

(b) yn aelod etholedig neu wedi bod yn aelod etholedig o'r awdurdod hwnnw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;

(c) yn ymddiriedolwr neu wedi bod yn ymddiriedolwr yn achos cymdeithas fabwysiadu gofrestredig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu os yw wedi ymwneud â rheolaeth yr asiantaeth honno;

(ch) yn rhiant mabwysiadol y mae'r asiantaeth wedi lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gydag ef neu berson y mae'r asiantaeth wedi ei gymeradwyo yn berson addas i fod yn rhiant mabwysiadol onid oes o leiaf ddwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud ynglyn â'r plentyn;

(d) os yw'n perthyn—

(i) yn achos cymdeithas fabwysiadu gofrestredig, i berson a gyflogir gan yr asiantaeth honno; neu

(ii) yn achos awdurdod lleol, i berson a gyflogir gan yr awdurdod hwnnw i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod hwnnw.

(7) At ddibenion paragraff (6)(d) mae person ("person A") yn perthyn i berson arall ("person B") os yw person A —

(a) yn aelod o aelwyd person B neu'n briod â pherson B neu'n bartner sifil i berson B;

(b) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd i berson B; neu

(c) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd i'r person sy'n briod â pherson B neu'n bartner sifil i berson B.

**Deiliadaeth swydd aelodau'r panel mabwysiadu**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau y rheoliad hwn a rheoliad 10, rhaid i aelod o'r panel mabwysiadu beidio â dal swydd am gyfnod hirach na 5 mlynedd, ac ni chaiff ddal swydd ar banel mabwysiadu yr un asiantaeth fabwysiadu am fwy na dau gyfnod yn olynol heb gael bwlch yn y cyfamser am gyfnod o dair blynedd o leiaf.

(2) Rhaid i'r aelod sy'n gynghorydd meddygol y panel mabwysiadu ddal swydd ond cyhyd â'r cyfnod y'i penodwyd o dan reoliad 9.

(3) Caiff aelod o'r panel mabwysiadu ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi mis o hysbysiad ysgrifenedig i'r asiantaeth fabwysiadu.

(4) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn bod unrhyw aelod o'r panel mabwysiadu yn anaddas neu'n analluog i barhau yn y swydd, gellir terfynu swydd yr aelod hwnnw ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig iddo ynghyd â rhesymau.

(5) Rhaid i derfyniad penodiad aelod o banel mabwysiadu ar y cyd o dan baragraff (4) gael cytundeb yr holl awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y panel.

**Cyfarfodydd panel mabwysiadu**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chynhelir unrhyw fusnes gan y panel mabwysiadu onid yw o leiaf bump o'i aelodau, gan gynnwys y person a benodwyd i gadeirio'r panel neu un o'r is-gadeiryddion, ac o leiaf un o'r gweithwyr cymdeithasol ac o leiaf un o'r personau annibynnol, yn cyfarfod fel y panel.

(2) Yn achos panel mabwysiadu ar y cyd, ni chynhelir unrhyw fusnes ganddo onid yw o leiaf chwech o'i aelodau, gan gynnwys y person a benodwyd i gadeirio'r panel neu un o'r is-gadeiryddion, ac o leiaf un gweithiwr cymdeithasol ac o leiaf un o'r personau annibynnol, yn cyfarfod fel y panel.

(3) Rhaid i'r panel mabwysiadu wneud cofnod ysgrifenedig o'i drafodion, ei argymhellion a'r rhesymau dros ei argymhellion.

**Talu ffioedd — cadeirydd neu berson annibynnol ar banel mabwysiadu awdurdod lleol**

**6.** Caiff awdurdod lleol dalu i berson a benodwyd yn gadeirydd ei banel mabwysiadu neu ei banel mabwysiadu ar y cyd neu i unrhyw berson annibynnol ar y panel, unrhyw ffi a benderfynir gan yr awdurdod lleol hwnnw, sef ffi sydd yn swm rhesymol.

### Trefniadau asiantaeth fabwysiadu ar gyfer gwaith mabwysiadu

**7.** Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, drwy ymgynghori â'r panel mabwysiadu ac, i'r graddau a bennir yn rheoliad 9(2), â chynghorydd meddygol yr asiantaeth, baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig a chyfarwyddiadau gweithdrefnol sy'n llywodraethu sut yr arferir swyddogaethau'r asiantaeth a'r panel o ran mabwysiadu, a rhaid i'r asiantaeth adolygu'r cyfarwyddiadau hynny yn gyson a, phan fydd yn briodol, eu diwygio.

### Gofyniad i benodi cynghorydd asiantaeth i'r panel mabwysiadu

**8.** Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benodi uwch aelod o staff, neu yn achos panel mabwysiadu ar y cyd rhaid i'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y panel drwy gytundeb benodi uwch aelod o staff o un o'r awdurdau lleol hynny, (i'w alw'n "cynghorydd yr asiantaeth") gyda'r cymwysterau, y sgiliau a'r profiad y mae'r asiantaeth yn ystyried eu bod yn briodol —

(a) i gynorthwyo'r asiantaeth wrth benodi (gan gynnwys ailbenodi), terfynu ac adolygu penodi aelodau o'r panel mabwysiadu;

(b) i fod yn gyfrifol am gynefino a hyfforddi aelodau o'r panel mabwysiadu;

(c) i fod yn gyfrifol am weinyddu'r panel mabwysiadu, gan gynnwys cynorthwyo gyda chydlynu rhwng yr asiantaeth a'r panel mabwysiadu a monitro perfformiad aelodau o'r panel mabwysiadu; ac

(ch) i roi'r cyfryw gyngor i'r panel mabwysiadu y gall y panel ofyn amdano o ran unrhyw achos neu yn gyffredinol.

### Gofyniad i benodi cynghorydd meddygol

**9.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benodi o leiaf un ymarferydd meddygol cofrestredig yn gynghorydd meddygol yr asiantaeth.

(2) Rhaid ymgynghori â chynghorydd meddygol yr asiantaeth fabwysiadu o ran trefniadau ar gyfer gweld a datgelu gwybodaeth am iechyd, sydd yn ofynnol neu a ganiateir yn rhinwedd y Rheoliadau hyn.

### Sefydlu paneli mabwysiadu newydd ar 30 Rhagfyr 2005

**10.**—(1) Bydd holl aelodau panel mabwysiadu a sefydlwyd cyn 30 Rhagfyr 2005 (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel yr "hen banel mabwysiadu") yn peidio â dal swydd ar y dyddiad hwnnw.

(2) Gydag effaith o 30 Rhagfyr 2005 ymlaen, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu sefydlu panel mabwysiadu newydd yn unol â rheoliadau 3 a 4.

(3) Pan fydd aelod o hen banel mabwysiadu yn peidio â dal swydd o dan baragraff (1) a ph'un a estynwyd cyfnod swydd yr aelod hwnnw gan yr asiantaeth fabwysiadu yn unol â rheoliad 5A(1A) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(**6**) neu mewn unrhyw achos arall, caniateir penodi'r aelod hwnnw yn aelod o banel mabwysiadu newydd o'r un asiantaeth fabwysiadu ac eithrio na chaiff cyfnod ei swydd ar y panel mabwysiadu newydd fod yn hirach na'r hyn a ganiateir gan reoliad 4 gan gyfrif y cyfnod y mae eisoes wedi gwasanaethu fel aelod o'r hen banel mabwysiadu.

(**6**) O.S.1983/1964. Mewnosodwyd rheoliad 5A(1A) gan Reoliadau Mabwysiadu (Asiantaethau) 2003 (O.S. 2003/3223).

# RHAN 3

## DYLETSWYDDAU ASIANTAETH FABWYSIADU OS YW'R ASIANTAETH YN YSTYRIED MABWYSIADU AR GYFER PLENTYN

### Cymhwysiad rheoliadau 11 i 20

**11.** Mae rheoliadau 11 i 20 yn gymwys pan fydd asiantaeth fabwysiadu yn ystyried mabwysiadu ar gyfer plentyn.

### Gofyniad i ddechrau cofnod achos i blentyn

**12.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu drefnu cofnod achos o ran y plentyn a rhoi ynddo unrhyw wybodaeth a gafwyd ac unrhyw adroddiad, argymhelliad neu benderfyniad a wnaed yn rhinwedd y Rheoliadau hyn.

(2) Os yw'r plentyn—

(a) yn derbyn gofal; neu

(b) yn cael llety o dan adran 59(1) o Ddeddf 1989 (darparu llety gan gyrff gwirfoddol),

rhaid i'r awdurdod lleol neu, yn ôl y digwydd, y gymdeithas fabwysiadu gofrestredig gael gafael ar unrhyw wybodaeth y mae angen cael gafael arni gan yr asiantaeth yn rhinwedd y Rhan hon, o'r cofnodion a gynhelir mewn cysylltiad â'r plentyn o dan Ddeddf 1989, a rhoi'r wybodaeth honno yn y cofnod achos y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

### Gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth ar gyfer y plentyn a chanfod ei ddymuniadau a'i deimladau.

**13.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ac yng ngoleuni oedran a dealltwriaeth y plentyn—

(a) darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer y plentyn;

(b) esbonio i'r plentyn mewn modd priodol y weithdrefn ynglyn â'i fabwysiadu, a goblygiadau cyfreithiol ei fabwysiadu, a rhoi'r wybodaeth ysgrifenedig briodol i'r plentyn ynglyn â'r materion hyn; ac

(c) canfod dymuniadau a theimladau'r plentyn o ran—

(i) posibilrwydd lleoliad gyda theulu newydd a'i fabwysiadu;

(ii) ei fagwraeth grefyddol a diwylliannol; a

(iii) cyswllt â'i riant, ei warcheidwad, perthynas neu berson arwyddocaol arall.

### Gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth ar gyfer rhiant neu warcheidwad y plentyn neu bobl eraill a chanfod eu dymuniadau a'u teimladau.

**14.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol —

(a) darparu gwasanaeth cwnsela i riant neu warcheidwad y plentyn;

(b) esbonio a darparu gwybodaeth ysgrifenedig i riant neu warcheidwad y plentyn ar y materion canlynol—

(i) y weithdrefn o ran mabwysiadu a lleoliad ar gyfer mabwysiadu a;

(ii) goblygiadau cyfreithiol —

(aa) cydsynio i leoliad ar gyfer mabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf (lleoli plant gyda chydsyniad rhiant);

(bb) cydsynio i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf (cydsyniad ymlaen llaw i fabwysiadu);

(cc) gorchymyn lleoliad; a

(iii) goblygiadau cyfreithiol mabwysiadu; ac

(c) canfod dymuniadau a theimladau rhiant neu warcheidwad y plentyn neu unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol o ran y canlynol—

(i) y materion a nodir yn adran 1(4)(f)(ii) a (iii) o'r Ddeddf (materion y mae'n rhaid i'r asiantaeth eu hystyried);

(ii) lleoliad y plentyn ar gyfer mabwysiadu a'i fabwysiadu gan gynnwys unrhyw ddymuniadau a theimladau ynghylch magwraeth grefyddol a diwylliannol y plentyn; a

(iii) cyswllt â'r plentyn os awdurdodwyd yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu os mabwysiedir y plentyn.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan nad oes gan dad plentyn gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac mae'r asiantaeth yn gwybod pwy yw'r tad.

(3) Os yw paragraff (2) yn gymwys a bod yr asiantaeth fabwysiadu wedi'i bodloni ei bod yn briodol gwneud hynny, rhaid i'r asiantaeth—

(a) cyflawni o ran y tad ofynion paragraff (1)(a), (b)(i), a (iii) ac (c) fel pe baent yn gymwys i'r tad, a

(b) canfod i'r graddau y mae'n bosibl p'un a yw'r tad—

(i) yn dymuno cael cyfrifoldeb rhiant am y plentyn o dan adran 4 o Ddeddf 1989) (caffael cyfrifoldeb rhiant)(**7**); neu

(ii) yn bwriadu gwneud cais am orchymyn preswylio neu orchymyn cyswllt ynglyn â'r plentyn o dan adran 8 o Ddeddf 1989 (preswyliad, cyswllt a gorchmynion eraill ynglyn â phlant) neu lle y bo plentyn yn ddarostyngedig i orchymyn gofal, gorchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 1989 (cyswllt rhiant â phlant mewn gofal).

**Gofyniad i gael gwybodaeth am y plentyn (gan gynnwys gwybodaeth am ei iechyd)**

**15.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gael gafael ar yr wybodaeth am y plentyn a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu —

(a) gwneud trefniadau i'r plentyn gael ei archwilio gan ymarferydd meddygol cofrestredig; a

(b) cael adroddiad ysgrifenedig gan yr ymarferydd hwnnw ar gyflwr iechyd y plentyn a rhaid iddo gynnwys unrhyw driniaeth y mae'r plentyn yn ei chael, anghenion y plentyn am ofal iechyd a'r materion a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1,

oni chafodd yr asiantaeth gyngor gan y cynghorydd meddygol nad oes angen yr archwiliad a'r adroddiad hwnnw.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud trefniadau —

(a) bod archwiliadau meddygol a seiciatryddol eraill, a phrofion eraill, yn cael eu cyflawni ar y plentyn yn ôl argymhelliad cynghorydd meddygol yr asiantaeth; a

(b) cael gafael ar adroddiadau ysgrifenedig o'r archwiliadau a'r profion hynny.

(4) Nid yw paragraffau (2) a (3) yn gymwys os yw'r plentyn yn deall digon i wneud penderfyniad seiliedig ar wybodaeth ac yn gwrthod cael archwiliadau neu brofion eraill.

(**7**) Diwygiwyd adran 4 gan adran 111 o'r Ddeddf.

### Gofyniad i gael gwybodaeth am deulu'r plentyn (gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y teulu)

**16.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gael gafael ar yr wybodaeth am deulu'r plentyn a bennir yn Rhannau 3 a 4 o Atodlen 1.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gael gafael ar yr wybodaeth am iechyd pob un o rieni a brodyr a chwiorydd naturiol y plentyn a bennir yn Rhan 5 o Atodlen 1.

### Gofyniad i baratoi adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y panel mabwysiadu

**17.**—(1) Os bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ystyried yn ngoleuni'r holl wybodaeth a gafwyd yn rhinwedd rheoliadau 12 i 16 mai mabwysiadu yw'r dewis gorau er mwyn sefydlogrwydd ar gyfer y plentyn, rhaid i'r asiantaeth baratoi adroddiad ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys —

(a) yr wybodaeth am y plentyn a theulu'r plentyn a bennir yn Rhannau 1, 3 a 4 o Atodlen 1;

(b) crynodeb, a ysgrifenwyd gan gynghorydd meddygol yr asiantaeth, o gyflwr iechyd y plentyn, hanes ei iechyd ac unrhyw angen am ofal iechyd a all godi yn y dyfodol;

(c) dymuniadau a theimladau'r plentyn ynglyn â'r materion a nodir yn rheoliad 13(1)(c);

(ch) dymuniadau a theimladau rhiant neu warcheidwad y plentyn, a phan fo rheoliad 14(2) yn gymwys, tad y plentyn, ac unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol, ynghylch y materion a nodir yn rheoliad 14(1)(c);

(d) barn yr asiantaeth fabwysiadu am angen y plentyn o ran cyswllt â'i riant neu ei warcheidwad neu berthynas arall neu ag unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol (gan gynnwys tad y plentyn pan fo rheoliad 14(2) yn gymwys) a'r trefniadau y mae'r asiantaeth yn bwriadu eu gwneud i ganiatáu cyswllt â'r plentyn i unrhyw berson;

(dd) asesiad o ddatblygiad emosiynol y plentyn a datblygiad ei ymddygiad ac unrhyw anghenion cysylltiedig;

(e) asesiad o gynneddf rhiant neu warcheidwad y plentyn i fod yn rhiant, ac os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, ei dad;

(f) cronoleg o'r penderfyniadau a'r camau a gymerwyd gan yr asiantaeth ynglyn â'r plentyn;

(ff) dadansoddiad o'r opsiynau am ofal y plentyn yn y dyfodol a gafodd eu hystyried gan yr asiantaeth a pham yr ystyrir mai lleoliad ar gyfer mabwysiadu yw'r dewis gorau; a

(g) unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon yr adroddiad ysgrifenedig ynghyd â'r adroddiadau eraill y mae eu hangen yn rhinwedd rheoliad 15 a 16 at y panel mabwysiadu.

(3) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, y gall y panel mabwysiadu ofyn amdani ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

### Swyddogaeth y panel mabwysiadu o ran plentyn a atgyfeirir gan yr asiantaeth fabwysiadu

**18.**—(1) Rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried achos pob plentyn a gaiff ei atgyfeirio ato gan yr asiantaeth fabwysiadu a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth honno ynghylch a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(2) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud, rhaid i'r panel mabwysiadu roi sylw i'r dyletswyddau a osodwyd ar yr asiantaeth fabwysiadu o dan adran 1(2), (4), (5) a (6) o'r Ddeddf (ystyriaethau sy'n gymwys wrth arfer pwerau o ran mabwysiadu plentyn) a —

(a) rhaid iddo bwyso a mesur a chymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth a'r adroddiadau a ddaeth iddo yn unol â rheoliad 17;

(b) caiff ofyn i'r asiantaeth gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol;

(c) rhaid iddo gael cyngor cyfreithiol yr ystyria sy'n angenrheidiol o ran yr achos.

(3) Pan fo'r panel mabwysiadu yn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu rhaid iddo ystyried a chaiff ar yr un pryd roi cyngor i'r asiantaeth ynghylch —

(a) y trefniadau y mae'r asiantaeth yn bwriadu eu gwneud er mwyn caniatáu cyswllt â'r plentyn i unrhyw berson;

(b) os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn awdurdod lleol, a ddylid gwneud cais am orchymyn lleoliad ynglyn â'r plentyn.

**Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu**

**19.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu —

(a) ystyried argymhelliad y panel mabwysiadu;

(b) ystyried unrhyw gyngor a roddir gan y panel mabwysiadu yn unol â rheoliad 18(3); ac

(c) rhoi sylw i'r ystyriaeth a nodir yn adran 1(2) o'r Ddeddf

wrth benderfynu a ddylid lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(2) Nid oes unrhyw aelod o'r panel mabwysiadu i gymryd rhan yn unrhyw benderfyniad a wneir gan yr asiantaeth fabwysiadu o dan baragraff (1).

(3) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, os yw eu cyfeiriad yn hysbys i'r asiantaeth, hysbysu ei phenderfyniad yn ysgrifenedig a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu unrhyw benderfyniad ynglyn â threfniadau cyswllt i—

(a) rhiant neu warcheidwad y plentyn;

(b) unrhyw berthynas neu berson arwyddocaol arall yr ymgynghorodd yr asiantaeth ag ef o dan reoliad 14(1) gan gynnwys unrhyw berson y gall fod gorchymyn cyswllt ganddo o dan adran 8 o Ddeddf 1989 neu orchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 1989 (cyswllt rhiant â phlant mewn gofal) mewn grym yn union cyn yr awdurdodir yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu; ac

(c) os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, tad y plentyn; ac

(ch) rhaid i'r asiantaeth esbonio ei phenderfyniad i'r plentyn mewn modd priodol ac yng ngoleuni oedran a dealltwriaeth y plentyn.

(4) Oni wnaed cais y gellid gwneud gorchymyn gofal o ran y plentyn, nas penderfynwyd arno, neu os yw'r plentyn yn llai na 6 wythnos oed, rhaid i'r asiantaeth ganfod a yw rhiant neu warcheidwad y plentyn yn barod—

(a) i gydsynio o dan adran 19 o'r Ddeddf (lleoli plant gyda chydsyniad rhiant) i'r plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gyda darpar fabwysiadwyr a enwir yn y cydsyniad neu iddo gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gydag unrhyw ddarpar fabwysiadwyr y caiff yr asiantaeth eu dewis; a

(b) ar yr un adeg i gydsynio i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf (cydsynio ymlaen llaw i fabwysiadu).

(5) Pan fydd rhiant neu warcheidwad y plentyn yn barod i gydsynio i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf, rhaid i'r asiantaeth esbonio a chadarnhau yn ysgrifenedig i riant neu warcheidwad y plentyn —

(a) y gellir tynnu unrhyw gydsyniad a roddir o dan adran 20 o'r Ddeddf yn ôl ond bydd y tynnu'n ôl hwnnw yn aneffeithiol os gwneir hynny ar ôl i gais am orchymyn mabwysiadu gael ei wneud;

(b) drwy roi hysbysiad i'r asiantaeth caiff, ar yr adeg honno neu rywbryd wedyn, ddatgan nad yw'n dymuno cael ei hysbysu o unrhyw gais am orchymyn mabwysiadu; ac

(c) caniateir tynnu'r cyfryw ddatganiad yn ôl.

### Cais i benodi swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAFCASS

**20.**—(1) Pan fydd rhiant neu warcheidwad y plentyn yn barod i gydsynio i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf (lleoli plant gyda chydsyniad rhiant) ac, yn ôl y digwydd, yn barod i gydsynio i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf (cydsyniad ymlaen llaw i fabwysiadu), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi un o'i swyddogion achosion teuluol ar gyfer Cymru(**8**) neu, pan fydd y plentyn yn arferol yn preswylio yn Lloegr, ofyn i CAFCASS benodi un o'i swyddogion er mwyn iddo gymeradwyo'r cydsyniad i'r lleoli neu i'r mabwysiadu ac, wrth ofyn, anfon hefyd yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 2.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu o ran y plentyn gadw'r canlynol yn y cofnod achos a gynhelir yn unol â rheoliad 12 —

(a) y ffurflen gydsynio wedi'i llofnodi'n briodol gan y rhiant neu'r gwarcheidwad a swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAFCASS yn dyst i hynny;

(b) unrhyw hysbysiad a roddir i'r asiantaeth o dan adran 20(4)(a) o'r Ddeddf (datganiad na ddymunir cael hysbysiad o unrhyw gais am orchymyn mabwysiadu); ac

(c) hysbysiad tynnu'n ôl unrhyw gydsyniad neu ddatganiad a roddwyd o dan adrannau 19 neu 20 o'r Ddeddf.

# RHAN 4

## DYLETSWYDDAU ASIANTAETH FABWYSIADU O RAN DARPAR FABWYSIADYDD

### Gofyniad i ddarparu cwnsela a gwybodaeth

**21.** Pan fydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ystyried a yw person yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth —

(a) darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer y darpar fabwysiadydd;

(b) mewn achos adran 83, esbonio i'r darpar fabwysiadydd y weithdrefn o ran mabwysiadu plentyn o'r wlad y mae'r darpar fabwysiadydd yn dymuno mabwysiadu ohoni a goblygiadau cyfreithiol gwneud hynny;

(c) mewn unrhyw achos arall esbonio i'r darpar fabwysiadydd y weithdrefn o ran lleoli ar gyfer mabwysiadu (gan gynnwys lleoliad drwy gydsyniad o dan adran 19 o'r Ddeddf, cydsyniad i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o'r Ddeddf, cyfyngu cyfrifoldeb rhiant a gorchmynion lleoliad) a mabwysiadu a goblygiadau cyfreithiol gwneud hynny; a

(ch) rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r darpar fabwysiadydd ynglyn â'r materion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (b) neu, yn ôl y digwydd, (c).

(**8**) *Gweler* adran 35(4) o Ddeddf Plant 2004 p.31.

**Gofyniad i ystyried cais am asesiad o addasrwydd i fabwysiadu plentyn**

**22.**—(1) Pan fydd yr asiantaeth fabwysiadu, yn dilyn y gweithdrefnau y cyfeirir atynt yn rheoliad 21, yn cael cais ysgrifenedig oddi wrth ddarpar fabwysiadydd am asesiad o'i addasrwydd i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth ddechrau cofnod achos o ran y darpar fabwysiadydd hwnnw ac ystyried addasrwydd y person hwnnw i fabwysiadu plentyn.

(2) Caiff yr asiantaeth fabwysiadu ofyn i'r darpar fabwysiadydd ddarparu unrhyw wybodaeth bellach yn ysgrifenedig y mae'r asiantaeth yn rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol.

(3) Pan fydd paragraff (1) yn gymwys o ran cwpl, ystyrir yr asesiad o'u haddasrwydd i fabwysiadu plentyn ar y cyd a bydd yr asiantaeth yn dechrau cofnod achos unigol.

**Gofyniad i wneud gwiriadau gyda'r heddlu**

**23.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael y canlynol —

(a) o ran y darpar fabwysiadydd, tystysgrif record droseddol fanwl yn ôl ystyr adran 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997(**9**) gan gynnwys y materion a bennir yn is-adran (6A) o'r adran honno; a

(b) o ran unrhyw aelod arall o aelwyd y darpar fabwysiadydd sy'n 18 oed neu drosodd, tystysgrif record droseddol fanwl o dan adran 115 o'r Ddeddf honno gan gynnwys y materion a bennir yn is-adran (6A) o'r adran honno.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu beidio ag ystyried person yn addas i fabwysiadu plentyn neu, yn ôl y digwydd, rhaid iddi ystyried nad yw person bellach yn addas i fabwysiadu plentyn, os yw'r person neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd —

(a) wedi'i gollfarnu o dramgwydd benodedig a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd; neu

(b) os cafodd rybuddiad gan gwnstabl o ran unrhyw dramgwydd o'r fath, y cyfaddefodd y person i'r tramgwydd pan roddwyd y rhybuddiad iddo.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "tramgwydd penodedig" yw —

(a) tramgwydd yn erbyn plentyn;

(b) tramgwydd a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 3;

(c) tramgwydd yn groes i adran 170 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979(**10**) o ran nwyddau y gwaharddir eu mewnforio o dan adran 42 o Ddeddf Cydgrynhoi Tollau 1876 (gwaharddiadau a chyfyngiadau ynghylch pornograffi)(**11**) os oedd y nwyddau gwaharddedig yn cynnwys ffotograffau anweddus o blant o dan 16 oed;

(ch) unrhyw dramgwydd arall sy'n cynnwys anaf corfforol i blentyn, ac eithrio tramgwydd ymosodiad cyffredin neu guro,

ac mae i'r ymadrodd "tramgwydd yn erbyn plentyn" yr ystyr a roddir i "offence against a child" yn adran 26(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000(**12**) ac eithrio nad yw'n cynnwys tramgwydd yn groes i adran 9 o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 (gweithgaredd rhywiol â phlentyn) mewn achos lle'r oedd y tramgwyddwr o dan 20 oed a'r plentyn yn 13 oed neu drosodd adeg cyflawni'r tramgwydd.

(**9**) 1997 p.50. Diwygiwyd adran 115 gan adran 328 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adran 19 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001, adrannau 90, 103, 104 a 116 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, adran 152 o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni 21 a 22 iddi, adran 8 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, adran 135 o'r Ddeddf, adran 2 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 ac Atodlen 2 iddi ac adran 115 o Ddeddf Trwyddedu 2003.
(**10**) 1979 p.2.
(**11**) 1876 p.36.
(**12**) 2000 p.43. Diwygiwyd Atodlen 4 i Ddeddf 2000 gan Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 c. 42.

(4) Ni chaiff asiantaeth fabwysiadu ystyried bod person yn addas i fabwysiadu plentyn neu, yn ôl y digwydd, rhaid iddi ystyried nad yw person bellach yn addas i fabwysiadu plentyn, os yw'r person neu unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw sy'n 18 oed neu drosodd —

(a) wedi'i gollfarnu o dramgwydd a bennir ym mharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 3 a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd neu os cafodd rybuddiad gan gwnstabl o ran unrhyw dramgwydd o'r fath, y cyfaddefodd y person i'r tramgwydd pan roddwyd y rhybuddiad iddo; neu

(b) yn dod o fewn paragraff 2 neu 3 o Ran 2 o Atodlen 3,

er bod y tramgwyddau statudol a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 3 wedi'u diddymu.

**Gofyniad i hysbysu**

**24.** Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl ar ôl dod yn ymwybodol nad yw'r person yn addas, neu yn ôl y digwydd, nad yw'r person bellach yn addas, i fabwysiadu plentyn yn rhinwedd rheoliad 23(2) i (4).

**Gofyniad i ddarparu paratoad ar gyfer mabwysiadu**

**25.**—(1) Pan fydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ystyried a yw person yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth wneud trefniadau i'r darpar fabwysiadydd gael y paratoad hwnnw ar gyfer mabwysiadu y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn briodol.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw'r asiantaeth fabwysiadu wedi'i bodloni bod y gofynion a nodir yn y paragraff hwnnw wedi cael eu cyflawni o ran y darpar fabwysiadydd gan asiantaeth fabwysiadu arall.

(3) Pan na fydd y darpar fabwysiadydd yn barod i ymgymryd â'r paratoad ar gyfer mabwysiadu y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried ei fod yn briodol yn ei achos ef, caniateir i'r asiantaeth wrthod mynd ymlaen â chais y darpar fabwysiadydd am asesiad o'i addasrwydd.

(4) Ym mharagraff (1) mae "paratoad ar gyfer mabwysiadu" yn cynnwys darparu gwybodaeth i ddarpar fabwysiadydd ynghylch —

(a) ystod oedran, rhyw ac anghenion tebygol a chefndir plant y gellid eu lleoli ar gyfer mabwysiadu gan yr asiantaeth fabwysiadu;

(b) arwyddocâd a goblygiadau cyfreithiol mabwysiadu i blentyn a'i deulu;

(c) cyswllt rhwng plentyn a'i rieni naturiol a pherthnasau eraill pan awdurdodir lleoli plentyn ar gyfer mabwysiadu neu pan gaiff y plentyn ei fabwysiadu;

(ch) y sgiliau sydd eu hangen i fod yn rhiant mabwysiadol;

(d) safbwynt y plentyn a theulu'r plentyn;

(dd) gweithdrefnau'r asiantaeth fabwysiadu o ran asesu darpar fabwysiadwyr a lleoli plentyn ar gyfer mabwysiadu; a

(e) y weithdrefn o ran mabwysiadu a lleoli ar gyfer mabwysiadu.

**Gweithdrefnau o ran gwneud asesiad**

**26.**—(1) Os bydd yr asiantaeth fabwysiadu, wedi iddo ddilyn y gweithdrefnau y cyfeirir atynt yn rheoliad 23 a 25, o'r farn y gallai'r darpar fabwysiadydd fod yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol, rhaid iddi gynnal asesiad yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael y manylion hynny am y darpar fabwysiadydd y cyfeirir atynt yn Rhan 1 o Atodlen 4.

(3) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael —

(a) adroddiad ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol cofrestredig am iechyd y darpar fabwysiadydd y mae'n rhaid iddo ymdrin â'r materion a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 4 oni chafodd adroddiad o'r fath ei lunio o fewn 6 mis ar ôl i'r panel ystyried yr achos o dan reoliad 27 a'i fod ar gael i'r asiantaeth;

(b) adroddiad ysgrifenedig am bob un o'r cyfweliadau gyda'r personau a enwebwyd gan y darpar fabwysiadydd yn ganolwyr personol; ac

(c) adroddiad ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol y mae'r darpar fabwysiadydd yn byw yn ei ardal, a phan fo'r darpar fabwysiadydd wedi byw yn yr ardal honno am gyfnod llai na deuddeng mis rhaid i'r asiantaeth gael adroddiad ysgrifenedig hefyd gan yr awdurdod lleol yr oedd y darpar fabwysiadydd yn byw yn ei ardal cyn hynny.

(4) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu baratoi adroddiad ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys—

(a) manylion am y darpar fabwysiadydd fel a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 4;

(b) crynodeb, a ysgrifenwyd gan gynghorydd meddygol yr asiantaeth, ar gyflwr iechyd y darpar fabwysiadydd;

(c) asesiad yr asiantaeth ar addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn, ac wrth benderfynu addasrwydd cwpl i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth roi sylw priodol i'r angen am gysondeb a sefydlogrwydd yn eu perthynas;

(ch) unrhyw wybodaeth berthnasol y caiff yr asiantaeth afael arni o dan baragraff (3)(c);

(d) unrhyw sylwadau gan yr asiantaeth ar y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 22, 23 a 25;

(dd) unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried sy'n berthnasol.

(5) Mewn achos adran 83 rhaid i'r adroddiad gynnwys —

(a) enw'r wlad ("tarddwlad") y mae'r darpar fabwysiadydd yn dymuno mabwysiadu ohoni;

(b) cadarnhad bod y darpar fabwysiadydd yn bodloni'r gofynion cymhwyster i fabwysiadu o'r darddwlad;

(c) gwybodaeth ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i ofynion y darddwlad; ac

(ch) asesiad yr asiantaeth o addasrwydd y darpar fabwysiadydd i fabwysiadu plentyn sy'n preswylio'n arferol y tu allan i Ynysoedd Prydain.

(6) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd yr atgyfeirir ei gais at y panel mabwysiadu ac ar yr un pryd yr anfonir copi at y darpar fabwysiadydd o adroddiad yr asiantaeth y cyfeirir ato ym mharagraff (4), a gwahodd unrhyw sylwadau ar yr adroddiad sydd i'w anfon yn ysgrifenedig at yr asiantaeth o fewn 10 niwrnod gwaith, gan ddechrau ar y dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad.

(7) Ar ddiwedd y cyfnod o 10 diwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (6) (neu'n gynharach os ceir unrhyw sylwadau a wnaed gan y darpar fabwysiadydd cyn bod 10 niwrnod gwaith wedi mynd heibio) rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon —

(a) yr adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4), ynghyd ag unrhyw sylwadau a roddwyd gan y darpar fabwysiadydd o dan baragraff (6);

(b) yr adroddiadau ysgrifenedig y cyfeirir atynt ym mharagraff (3); ac

(c) unrhyw wybodaeth arall berthnasol a gafwyd gan yr asiantaeth o dan y rheoliad hwn

at y panel mabwysiadu.

(8) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, y gall y panel mabwysiadu ei gwneud yn ofynnol ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

### Swyddogaeth y panel mabwysiadu

**27.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried achos y darpar fabwysiadydd a gaiff ei atgyfeirio ato gan yr asiantaeth fabwysiadu a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth honno a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(2) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud, o ran y panel mabwysiadu—

(a) rhaid iddo bwyso a mesur a chymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth a'r adroddiadau a ddaeth iddo yn unol â rheoliad 26;

(b) caiff ofyn i'r asiantaeth gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol; ac

(c) rhaid iddo gael y cyngor cyfreithiol yr ystyria sy'n angenrheidiol o ran yr achos.

(3) Pan fydd y panel mabwysiadu yn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu bod y darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, caiff ystyried ac ar yr un pryd caiff gynghori'r asiantaeth am y nifer o blant y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i'w mabwysiadu, ystod eu hoedran, eu rhyw a'u nodweddion (iechyd a chymdeithasol).

(4) Cyn gwneud unrhyw argymhelliad, rhaid i'r panel mabwysiadu wahodd y darpar fabwysiadwyr i ddod i gyfarfod a gynhelir gan y panel.

### Penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu

**28.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried argymhelliad y panel mabwysiadu wrth ddod i benderfyniad ynghylch a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(2) Nid oes unrhyw aelod o'r panel mabwysiadu i gymryd rhan yn unrhyw benderfyniad a wneir gan yr asiantaeth fabwysiadu o dan baragraff (1).

(3) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu bod y darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid iddi hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig o'i phenderfyniad.

(4) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, rhaid iddi—

(a) hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig nad yw'n bwriadu cymeradwyo'r darpar fabwysiadydd fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn ("dyfarniad o gymhwyster");

(b) anfon gyda'r hysbysiad hwnnw ei rhesymau ynghyd â chopi o argymhelliad y panel mabwysiadu, os ydynt yn wahanol;

(c) cynghori'r darpar fabwysiadydd y caiff o fewn 20 niwrnod gwaith gan ddechrau ar y dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad y caiff y darpar fabwysiadydd—

(i) cyflwyno unrhyw sylwadau i'r asiantaeth, neu

(ii) wneud cais i'r panel adolygu annibynnol i adolygu'r dyfarniad cymwys.

(5) O fewn y cyfnod o 20 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (4), os na fydd y darpar fabwysiadydd wedi gwneud unrhyw sylwadau neu wedi gwneud cais i banel adolygu annibynnol, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu fynd rhagddi i wneud ei phenderfyniad a rhaid iddi hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig o'i phenderfyniad ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(6) O fewn y cyfnod o 20 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (4), os bydd yr asiantaeth fabwysiadu wedi cael sylwadau pellach oddi wrth y darpar fabwysiadydd, caiff atgyfeirio'r achos ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol yn ôl at eu panel mabwysiadu ar gyfer ystyriaeth bellach.

(7) Rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried unrhyw achos a atgyfeirir ato o dan baragraff (6) a gwneud argymhelliad o'r newydd i'r asiantaeth fabwysiadu o ran a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(8) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu benderfynu'r achos ond os atgyfeiriwyd yr achos at y panel mabwysiadu o dan baragraff (6) neu os yw'r darpar fabwysiadydd wedi gwneud cais i'r panel adolygu annibynnol am adolygiad o'r dyfarniad o gymhwyster rhaid iddo benderfynu ond dim ond ar ôl cymryd i ystyriaeth unrhyw argymhelliad gan y panel mabwysiadu a wnaed o dan baragraff (7) a rheoliad 27 neu, yn ôl y digwydd, gan y panel adolygu annibynnol.

(9) Cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud ei phenderfyniad o dan baragraff (8), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig o'i phenderfyniad gan ddatgan ei rhesymau dros y penderfyniad hwnnw os yw o'r farn nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, ac o argymhelliad y panel mabwysiadu o dan baragraff (7), os yw hwn yn wahanol i benderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu.

### Gwybodaeth sydd i'w hanfon at y panel adolygu annibynnol

**29.**—(1) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn cael hysbysiad oddi wrth y panel adolygu annibynnol bod darpar fabwysiadydd wedi gwneud cais am adolygiad o'r dyfarniad cymwys, rhaid i'r asiantaeth, o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn yr hysbysiad hwnnw, anfon at y panel adolygu annibynnol yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2)(**13**).

(2) Mae'r wybodaeth ganlynol yn un a bennir at ddibenion paragraff (1) —

(a) yr holl adroddiadau a gwybodaeth a anfonwyd at y panel mabwysiadu yn unol â rheoliad 26;

(b) unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan y darpar fabwysiadydd yn unol â rheoliad 26(6);

(c) unrhyw adroddiadau eraill neu wybodaeth arall a anfonwyd gan yr asiantaeth fabwysiadu at y panel mabwysiadu;

(ch) cofnod o drafodion y panel mabwysiadu, ei argymhellion a'i resymau dros ei argymhellion;

(d) yr hysbysiad, ynghyd â'r rhesymau a anfonwyd gan yr asiantaeth fabwysiadu at y darpar fabwysiadydd yn unol â rheoliad 28(4)(a) a (b).

### Adolygiadau a therfynu cymeradwyaeth

**30.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu adolygu cymeradwyaeth pob darpar fabwysiadydd yn unol â'r rheoliad hwn, oni bai—

(a) mewn achos adran 83, bod y darpar fabwysiadydd wedi ymweld â'r plentyn yn y wlad lle mae'r plentyn yn arferol yn preswylio ynddi a'i fod wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn mynd ymlaen â'r mabwysiadu; a

(b) mewn unrhyw achos arall, bod y plentyn wedi'i leoli ar gyfer mabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

(2) Rhaid i adolygiad ddigwydd pryd bynnag y bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ystyried ei fod yn angenrheidiol ond fel arall ddim mwy na dwy flynedd ar ôl cymeradwyaeth ac yna ar ôl bylchau nad ydynt yn fwy na dwy flynedd.

(3) Wrth ymgymryd ag adolygiad o'r fath rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu —

(a) gwneud yr ymholiadau hynny a chael gafael ar yr wybodaeth honno y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol er mwyn adolygu a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn; a

(b) gofyn am farn y darpar fabwysiadydd a'i hystyried.

(4) Fel rhan o bob adolygiad rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried—

(**13**) Rhagnodir gweithrediad a gweithdrefn y panel adolygu annibynnol mewn rheoliadau pellach a wneir o dan adran 9 o'r Ddeddf.

(a) pam na leolwyd unrhyw blentyn hyd yn hyn gyda'r darpar fabwysiadydd;

(b) unrhyw drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ac a ddylent barhau neu gael eu haddasu;

(c) pan ddychwelir plentyn at yr asiantaeth fabwysiadu yn unol ag adran 35(1) neu (2) o'r Ddeddf, y rhesymau dros ddychwelyd y plentyn; ac

(ch) a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn.

(5) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu —

(a) nodi'n ysgrifenedig y trefniadau sy'n llywodraethu dull cyflawni'r adolygiad ar ddarpar fabwysiadydd a rhaid dwyn y trefniadau ysgrifenedig i sylw—

(i) y darpar fabwysiadydd; a

(ii) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol,

(b) sicrhau bod—

(i) yr wybodaeth a gafwyd ynglŷn â'r darpar fabwysiadydd;

(ii) manylion y trafodion mewn unrhyw gyfarfod a drefnwyd gan yr asiantaeth i ystyried unrhyw agwedd o'r adolygiad; a

(iii) manylion unrhyw benderfyniad a wnaed yn ystod yr adolygiad neu o ganlyniad iddo,

yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u rhoi yng nghofnod achos y darpar fabwysiadydd.

(6) Ar ddiwedd yr adolygiad, os bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ystyried nad yw'r darpar fabwysiadydd bellach yn addas i fod yn rhiant mabwysiadol, rhaid iddi baratoi adroddiad ysgrifenedig y mae'n rhaid iddo gynnwys —

(a) yr wybodaeth a gafwyd ar y materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (3) a (4);

(b) rhesymau'r asiantaeth; ac

(c) unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried sy'n berthnasol.

(7) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd fod yr adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (6) i gael ei atyfeirio at y panel mabwysiadu a rhoi copi i'r darpar fabwysiadydd o'r adroddiad hwnnw, a gwahodd sylwadau ar yr adroddiad sydd i'w hanfon yn ysgrifenedig at yr asiantaeth o fewn 10 niwrnod gwaith, gan ddechrau ar y dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad.

(8) Ar ddiwedd y cyfnod o 10 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (7) (neu'n gynharach os daw unrhyw sylwadau a wnaed gan y darpar fabwysiadydd i law cyn i'r 10 niwrnod gwaith ddod i ben) rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon copi o'r adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (6), ynghyd â sylwadau'r darpar fabwysiadydd a'r adroddiad a gafodd ei baratoi ar gyfer y panel o dan reoliad 26(4).

(9) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, y gall y panel mabwysiadu ofyn amdani ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

(10) Rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried yr adroddiad ac unrhyw wybodaeth arall a roddwyd iddo gan yr asiantaeth fabwysiadu o dan y rheoliad hwn a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth a yw'r darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn.

(11) Mae rheoliad 28 yn gymwys o ran y penderfyniad gan yr asiantaeth fabwysiadu ynghylch a yw darpar fabwysiadydd yn parhau i fod yn addas i fabwysiadu plentyn fel y mae'n gymwys o ran y penderfyniad gan yr asiantaeth ynghylch a yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

**Dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu mewn achos adran 83 yn dilyn cymeradwyo darpar fabwysiadydd**

**31.** Os bydd asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu mewn achos adran 83 i gymeradwyo darpar fabwysiadydd fel person addas i fabwysiadu plentyn, rhaid i'r asiantaeth anfon at y Cynulliad Cenedlaethol —

(a) cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad ac unrhyw argymhelliad y caiff yr asiantaeth ei wneud o ran y nifer o blant y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i'w mabwysiadu, ystod eu hoedran, eu rhyw, eu hanghenion tebygol a'u cefndir;

(b) yr holl ddogfennau a gwybodaeth a roddwyd i'r panel mabwysiadu yn unol â rheoliad 26;

(c) cofnod o drafodion y panel mabwysiadu, ei argymhellion a'i resymau dros ei argymhellion;

(ch) os oedd y darpar fabwysiadydd wedi gwneud cais am adolygiad gan banel annibynnol o ddyfarniad o gymhwyster, cofnodion trafodion y panel hwnnw, ei argymhellion a'r rhesymau dros ei argymhellion; a

(d) unrhyw wybodaeth arall ynglyn â'r achos y gall y Cynulliad Cenedlaethol neu'r awdurdod tramor perthnasol ei gwneud yn ofynnol.

# RHAN 5

## DYLETSWYDDAU'R ASIANTAETH FABWYSIADU O RAN LLEOLIAD ARFAETHEDIG PLENTYN GYDA DARPAR FABWYSIADYDD

**Y lleoliad arfaethedig**

**32.**—(1) Os bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn ystyried lleoli plentyn ar gyfer mabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd penodol (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel "y lleoliad arfaethedig") rhaid i'r asiantaeth —

(a) rhoi i'r darpar fabwysiadydd adroddiad am y plentyn a rhaid i'r adroddiad gynnwys yr wybodaeth a nodir yn Atodlen 5 ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r asiantaeth yn ystyried ei bod yn berthnasol;

(b) cyfarfod â'r darpar fabwysiadydd i drafod y lleoliad arfaethedig;

(c) canfod barn y darpar fabwysiadydd am —

(i) y lleoliad arfaethedig;

(ii) anghenion asesedig y plentyn ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu a'r cynllun cymorth mabwysiadu;

(iii) y trefniadau y mae'r asiantaeth yn bwriadu eu gwneud er mwyn caniatáu cyswllt â'r plentyn i unrhyw berson; a

phan fo'n gymwys, unrhyw gyfyngiad wrth arfer ei gyfrifoldeb rhiant.

(ch) darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer y darpar fabwysiadydd ac unrhyw wybodaeth bellach iddo yn ôl y gofyn.

(2) Os dilynwyd y gweithdrefnau a nodir ym mharagraff (1) ac os yw'r darpar fabwysiadydd wedi cadarnhau i'r asiantaeth yn ysgrifenedig ei fod yn barod i gytuno ar y lleoliad arfaethedig, rhaid i'r asiantaeth mewn achosion o'r fath ac os yw'n ystyried ei bod yn briodol i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol yng ngoleuni oedran a dealltwriaeth y plentyn, gwnsela'r plentyn a dweud wrth y plentyn am y darpar fabwysiadwyr, eu hamgylchiadau teuluol ac awyrgylch eu cartrefi a chanfod barn y plentyn am y lleoliad arfaethedig, y trefniadau cyswllt ac unrhyw gyfyngiad ar gyfrifoldeb rhiant y darpar fabwysiadydd.

(3) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn y dylai'r lleoliad arfaethedig fynd rhagddo, rhaid i'r asiantaeth—

(a) os yw'r asiantaeth yn awdurdod lleol, gwneud asesiad o anghenion y plentyn a'r darpar deulu mabwysiadol ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 4(6) o'r Ddeddf;

(b) ystyried y trefniadau ar gyfer caniatáu cyswllt gan unrhyw berson â'r plentyn;

(c) ystyried a ddylid cyfyngu i unrhyw raddau ar gyfrifoldeb unrhyw riant neu warcheidwad, neu ddarpar fabwysiadwyr;

(ch) paratoi adroddiad ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys—

(i) rhesymau'r asiantaeth dros gynnig y lleoliad;

(ii) yr wybodaeth a gafwyd yn rhinwedd paragraffau (1) a (2);

(iii) os yw'r asiantaeth yn awdurdod lleol, ei gynigion ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, os o gwbl, yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 4(6) o'r Ddeddf;

(iv) y trefniadau y mae'r asiantaeth yn bwriadu eu gwneud er mwyn caniatáu cyswllt â'r plentyn i unrhyw berson;

(v) cynigion yr asiantaeth i gyfyngu ar gyfrifoldeb unrhyw riant neu warcheidwad, neu ddarpar fabwysiadydd; a

(vi) unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r lleoliad arfaethedig.

(4) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd bod y lleoliad arfaethedig i'w atyfeirio at y panel mabwysiadu ac anfon at y darpar fabwysiadydd gopi o adroddiad yr asiantaeth y cyfeirir ato ym mharagraff (3) a gwahodd unrhyw sylwadau ar yr adroddiad i'w hanfon yn ysgrifenedig at yr asiantaeth o fewn 10 niwrnod gwaith, gan ddechrau ar y dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad.

(5) Ar ddiwedd y cyfnod o 10 niwrnod gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (4) (neu'n gynharach os ceir sylwadau cyn bod 10 niwrnod gwaith wedi mynd heibio) rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu anfon —

(a) yr adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3);

(b) yr adroddiad y cyfeirir ato yn rheoliad 17;

(c) yr adroddiad y cyfeirir ato yn rheoliad 26 ac unrhyw sylwadau a wnaed gan y darpar fabwysiadydd ar yr adroddiad hwnnw;

(ch) unrhyw wybodaeth berthnasol arall a gafwyd gan yr asiantaeth o dan y rheoliad hwn

at y panel mabwysiadu.

(6) Ni chaiff yr asiantaeth fabwysiadu ond atgyfeirio at y panel mabwysiadu ei chynnig i leoli plentyn ar gyfer mabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd penodol yn unig os ymgynghorwyd ag unrhyw asiantaeth fabwysiadu arall sydd wedi gwneud penderfyniad yn unol â'r Rheoliadau hyn y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu, neu os yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, ynghylch y lleoliad arfaethedig.

(7) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn cynnig lleoli plentyn ar gyfer mabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd penodol, rhaid i'r asiantaeth ddechrau cofnodion achos mewn unrhyw achos os nad yw eisoes wedi dechrau cofnodion o'r fath a rhoi yn y cofnod priodol unrhyw wybodaeth, adroddiad, argymhelliad neu benderfyniad a atgyfeiriwyd ati gan asiantaeth fabwysiadu arall ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sydd i'w hanfon at y panel mabwysiadu yn rhinwedd y rheoliad hwn ynglyn â hwy.

(8) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall o ran y lleoliad arfaethedig, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, y gall y panel mabwysiadu ofyn amdani ac anfon yr wybodaeth honno at y panel.

### Swyddogaeth y panel mabwysiadu o ran lleoliad arfaethedig

**33.**—(1) Rhaid i'r panel mabwysiadu ystyried y lleoliad arfaethedig a gaiff ei atgyfeirio ato gan yr asiantaeth fabwysiadu a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth ynghylch a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd penodol hwnnw.

(2) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud, rhaid i'r panel mabwysiadu roi sylw i'r dyletswyddau a osodwyd ar yr asiantaeth fabwysiadu o dan adran 1(2), (4) a (5) o'r Ddeddf (ystyriaethau sy'n gymwys wrth arfer pwerau o ran mabwysiadu plentyn) ac —

(a) rhaid iddo bwyso a mesur a chymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth a'r adroddiadau a ddaeth iddo yn unol â rheoliad 32;

(b) caiff ofyn i'r asiantaeth fabwysiadu gael gafael ar unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol; ac

(c) rhaid iddo gael cyngor cyfreithiol yr ystyria sy'n angenrheidiol o ran yr achos.

(3) Rhaid i'r panel mabwysiadu hefyd ystyried a chaiff, os yw'r panel yn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd penodol hwnnw, ystyried rhoi cyngor ar yr un pryd i'r asiantaeth fabwysiadu ynghylch —

(i) os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn awdurdod lleol, cynigion yr awdurdod i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu;

(ii) y trefniadau y mae'r asiantaeth yn bwriadu eu gwneud er mwyn caniatáu cyswllt â'r plentyn i unrhyw berson;

(iii) a ddylid gwneud cais am orchymyn lleoliad; a

(iv) os awdurdodwyd yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu a ydyw'n ystyried y dylid cyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant unrhyw berson ac, os felly, i ba raddau.

(4) Caiff y panel mabwysiadu wneud yr argymhelliad ym mharagraff (1) ond ddim ond —

(a) os yw'r argymhelliad hwnnw i gael ei wneud yn yr un cyfarfod o'r panel mabwysiadu lle cafodd argymhelliad ei wneud y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu; neu

(b) os yw'r asiantaeth fabwysiadu neu asiantaeth fabwysiadu arall wedi gwneud penderfyniad yn unol â rheoliad 19 y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu;

ac yn y naill achos a'r llall bod yr argymhelliad i'w wneud yn yr un cyfarfod o'r panel y cafodd argymhelliad ei wneud bod y darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn neu fod yr asiantaeth fabwysiadu, neu asiantaeth fabwysiadu arall, wedi gwneud penderfyniad yn unol â rheoliad 28 fod y darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

### Penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu o ran y lleoliad arfaethedig

**34.**—(1) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud y canlynol —

(a) ystyried argymhelliad y panel mabwysiadu;

(b) ystyried unrhyw gyngor a roddir gan y panel mabwysiadu yn unol â rheoliad 33(3); a

(c) rhoi sylw i'r ystyriaeth a nodir yn adran 1(2) o'r Ddeddf,

wrth benderfynu a ddylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd penodol.

(2) Nid oes unrhyw aelod o'r panel mabwysiadu i gymryd rhan yn unrhyw benderfyniad a wneir gan yr asiantaeth fabwysiadu o dan baragraff (1).

(3) Cyn gynted â phosibl ar ôl iddi benderfynu rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig o'i phenderfyniad ynghylch y lleoliad arfaethedig, trefniadau cyswllt a chyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant unrhyw berson.

(4) Cyn gynted â phosibl ar ôl iddi benderfynu, rhaid i'r asiantaeth hysbysu yn ysgrifenedig —

(a) y rhiant neu'r gwarcheidwad, os yw'r asiantaeth yn gwybod lle y maent; a

(b) os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, tad y plentyn,

o'i phenderfyniad.

(5) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu y dylai'r lleoliad arfaethedig fynd rhagddo, rhaid i'r asiantaeth esbonio ei phenderfyniad i'r plentyn mewn modd priodol ac yng ngoleuni oedran a dealltwriaeth y plentyn.

**Swyddogaeth yr asiantaeth fabwysiadu mewn achos adran 83**

**35.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn achos adran 83 os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn cael gwybodaeth gan yr awdurdod tramor perthnasol ynghylch plentyn sydd i'w fabwysiadu gan ddarpar fabwysiadydd y mae'r asiantaeth wedi ei gymeradwyo fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn.

(2) Os yw paragraff (1) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu—

(a) anfon copi o'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) at y darpar fabwysiadydd onid yw'n gwybod bod y darpar fabwysiadydd wedi cael copi;

(b) ystyried yr wybodaeth honno;

(c) cyfarfod y darpar fabwysiadydd i drafod yr wybodaeth; ac

(ch) os yw'n briodol, darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer y darpar fabwysiadydd ac unrhyw wybodaeth bellach iddo yn ôl y gofyn.

# RHAN 6

## LLEOLIADAU AC ADOLYGIADAU

**Gofynion a osodir ar yr asiantaeth fabwysiadu cyn y lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd**

**36.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw'r asiantaeth fabwysiadu —

(a) wedi penderfynu yn unol â rheoliad 34 i leoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu gyda darpar fabwysiadydd penodol; a

(b) wedi cyfarfod â'r darpar fabwysiadydd i ystyried y trefniadau y mae'n bwriadu eu gwneud er mwyn lleoli'r plentyn gydag ef.

(2) Os yw paragraff (1) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, o leiaf 7 niwrnod cyn lleoli'r plentyn gyda'r darpar fabwysiadydd, roi cynllun lleoli i'r darpar fabwysiadydd ynglyn â'r plentyn sy'n ymdrin â'r materion a bennir yn Atodlen 6 ("y cynllun lleoliad").

(3) Os yw paragraff (1) yn gymwys ac mae'r plentyn eisoes yn byw gyda'r darpar fabwysiadydd, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu roi i'r darpar fabwysiadydd y cynllun lleoliad ynglyn â'r plentyn o fewn 7 niwrnod ar ôl iddo benderfynu lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

(4) Os yw paragraff (1) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, cyn iddo leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd—

(a) hysbysu ymarferydd cyffredinol y darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig o'r lleoliad arfaethedig ac anfon gyda'r hysbysiad hwnnw adroddiad ysgrifenedig o hanes iechyd y plentyn a chyflwr presennol ei iechyd;

(b) hysbysu'r awdurdod lleol (os nad yr awdurdod hwnnw yw'r asiantaeth fabwysiadu) a'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol (Lloegr) y mae'r darpar fabwysiadydd yn preswylio yn ei ardal yn ysgrifenedig o'r lleoliad arfaethedig;

(c) hysbysu'r awdurdod addysg lleol y mae'r darpar fabwysiadydd yn preswylio yn ei ardal yn ysgrifenedig o'r lleoliad arfaethedig a gwybodaeth am hanes addysgol y plentyn ac a gafodd neu a yw'n debygol o gael ei asesu ar gyfer anghenion addysgol arbennig o dan Ddeddf Addysg 1996.

(5) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig o unrhyw newid yn y cynllun lleoliad.

(6) Os yw paragraff (1) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, cyn i'r plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu gan y darpar fabwysiadydd, drefnu i'r darpar fabwysiadydd gyfarfod â'r plentyn ac yn dilyn y cyfarfod hwnnw gwnsela'r darpar fabwysiadydd ac, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol yng ngoleuni oedran a dealltwriaeth y plentyn, gwnsela'r plentyn am y lleoliad arfaethedig.

(7) Os bydd y darpar fabwysiadydd, ar ôl dilyn y gweithdrefnau y cyfeirir atynt ym mharagraff (6), yn cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn dymuno mynd rhagddo â'r lleoliad, ac os awdurdodir yr asiantaeth fabwysiadu i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu os yw'r plentyn yn iau na chwe wythnos oed, caiff yr asiantaeth fabwysiadu leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gyda'r darpar fabwysiadydd.

(8) Os yw'r plentyn eisoes yn byw gyda'r darpar fabwysiadydd, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r darpar fabwysiadydd yn ysgrifenedig o'r dyddiad y lleolir y plentyn yno gan yr asiantaeth ar gyfer ei fabwysiadu.

**Adolygiadau**

**37.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan awdurdodir asiantaeth fabwysiadu i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu ond na leolwyd y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw plentyn yn cael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu.

(3) Os yw paragraff (1) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud adolygiad achos ar y plentyn —

(a) dim mwy na thri mis ar ôl y dyddiad y mae gan yr asiantaeth yr awdurdod am y tro cyntaf i leoli; a

(b) wedyn dim mwy na chwe mis ar ôl dyddiad yr adolygiad blaenorol ("adolygiad chwe mis"),

nes lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(4) Os yw paragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu wneud adolygiad achos ar y plentyn —

(a) dim mwy na phedair wythnos ar ôl dyddiad y lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu ("yr adolygiad cyntaf");

(b) dim mwy na thri mis ar ôl yr adolygiad cyntaf; ac

(c) wedyn dim mwy na chwe mis ar ôl dyddiad yr adolygiad blaenorol,

oni chaiff y plentyn ei ddychwelyd i'r asiantaeth gan y darpar fabwysiadydd neu oni wneir gorchymyn mabwysiadu.

(5) Os yw paragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu —

(a) sicrhau yr ymwelir â'r plentyn a'r darpar fabwysiadydd o fewn un wythnos ar ôl y lleoli ac wedyn o leiaf unwaith yr wythnos tan yr adolygiad cyntaf ac wedyn yn ôl yr amlder a benderfynir gan yr asiantaeth ym mhob adolygiad;

(b) sicrhau bod adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu llunio am yr ymweliadau hynny; ac

(c) rhoi cyngor a chymorth o'r fath i'r darpar fabwysiadydd y mae'r asiantaeth o'r farn bod eu hangen.

(6) Wrth wneud adolygiad rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ymweld â'r plentyn ac i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ganfod barn —

(a) y plentyn yng ngoleuni ei oedran a'i ddealltwriaeth;

(b) os lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, y darpar fabwysiadydd; ac

(c) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn barnu eu bod yn berthnasol,

o ran pob un o'r materion a nodir ym mharagraff (7)(a) i (dd).

(7) Fel rhan o bob adolygiad rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ystyried—

(a) p'un a leolwyd y plentyn ai peidio, a ydyw'r asiantaeth fabwysiadu yn parhau'n fodlon y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu;

(b) anghenion y plentyn, ei les, ei gynnydd a'i ddatblygiad, ac a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i ddiwallu anghenion y plentyn neu gynorthwyo datblygiad y plentyn;

(c) y trefniadau presennol ar gyfer cyswllt, ac a ddylent barhau neu gael eu haddasu;

(ch) pan leolir plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, y trefniadau o ran arfer cyfrifoldeb rhiant am y plentyn, ac a ddylent barhau neu gael eu haddasu;

(d) y trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu ac a ddylid gwneud ailasesiad o'r angen am y gwasanaethau hynny;

(dd) wrth ymgynghori â'r asiantaethau priodol, y trefniadau ar gyfer asesu a diwallu anghenion gofal iechyd ac anghenion addysgol y plentyn;

(e) yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4) amlder yr adolygiadau.

(8) Os yw'r plentyn yn destun gorchymyn lleoliad ond na chafodd ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu ar adeg yr adolygiad chwe mis cyntaf, rhaid i'r awdurdod yn yr adolygiad hwnnw—

(a) darganfod pam na chafodd y plentyn ei leoli ar gyfer mabwysiadu ac ystyried pa gamau pellach ddylai'r awdurdod eu cymryd o ran lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu; a

(b) yng ngoleuni hynny, ystyried a yw'n parhau'n fodlon y dylid lleoli'r plentyn ar gyfer mabwysiadu.

(9) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu —

(a) nodi'n ysgrifenedig y trefniadau sy'n llywodraethu'r dull y mae achos pob plentyn i gael ei adolygu a rhaid dwyn y trefniadau ysgrifenedig i sylw—

(i) y plentyn os yw'n rhesymol ymarferol yng ngoleuni ei oedran a'i ddealltwriaeth;

(ii) y darpar fabwysiadydd; a

(iii) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth yn barnu ei fod yn berthnasol.

(b) sicrhau bod—

(i) yr wybodaeth a gafwyd o ran achos plentyn gan gynnwys dymuniadau a theimladau'r plentyn hyd y gellir eu casglu;

(ii) manylion y trafodion mewn unrhyw gyfarfod a drefnwyd gan yr asiantaeth i ystyried unrhyw agwedd ar adolygiad o'r achos; a

(iii) manylion unrhyw benderfyniad a wnaed yn ystod adolygiad neu o ganlyniad iddo (gan gynnwys amlder yr ymweliadau),

yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a'u rhoi yng nghofnod achos y plentyn.

(10) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, hysbysu—

(a) y plentyn os yw o'r farn ei fod yn ddigon hen a'i fod yn deall digon;

(b) y darpar fabwysiadydd; ac

(c) unrhyw berson arall y mae'n ystyried y dylid ei hysbysu

o ganlyniad yr adolygiad ac o unrhyw benderfyniad a gymerwyd ganddi o ganlyniad i'r adolygiad.

(11) Os dychwelir y plentyn i'r asiantaeth fabwysiadu yn unol ag adran 35(1) neu (2) o'r Ddeddf, rhaid i'r asiantaeth gynnal adolygiad o achos y plentyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a beth bynnag dim hwyrach na 28 niwrnod ar ôl y dyddiad y dychwelir y plentyn i'r asiantaeth.

**Swyddogion adolygu annibynnol**

**38.**—(1) Rhaid i asiantaeth fabwysiadu sy'n awdurdod lleol neu'n gymdeithas fabwysiadu gofrestredig sy'n gorff gwirfoddol sydd yn darparu llety i blentyn, benodi person ("y swyddog adolygu annibynnol") o ran achos pob plentyn a awdurdodwyd i'w leoli ar gyfer mabwysiadu gan yr asiantaeth i gyflawni'r swyddogaethau a grybwyllir yn adran 26(2A) o Ddeddf 1989.

(2) Rhaid bod gan y swyddog adolygu annibynnol brofiad arwyddocaol mewn gwaith cymdeithasol a'i fod yn dal Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol neu Radd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Gyngor Gofal Cymru.

(3) Os yw'r swyddog adolygu annibynnol yn gyflogai i'r asiantaeth fabwysiadu rhaid sicrhau nad yw swydd y swyddog adolygu annibynnol yn yr asiantaeth honno o dan reolaeth uniongyrchol —

(a) person sy'n ymwneud â rheoli'r achos;

(b) person sydd â chyfrifoldebau rheoli o ran y person a grybwyllir yn is-baragraff (a); neu

(c) person sydd â rheolaeth dros yr adnoddau a glustnodwyd i'r achos.

(4) Rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol, gadeirio unrhyw gyfarfod a gynhelir mewn cysylltiad ag adolygiad achos y plentyn.

(5) Rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol, cyn belled ag y mae'n rhesymol ymarferol, gymryd camau i sicrhau y cynhelir yr adolygiad yn unol â rheoliad 37 ac yn benodol sicrhau—

(a) bod barn y plentyn yn cael ei deall a'i hystyried;

(b) bod y personau sy'n gyfrifol am weithredu unrhyw benderfyniad a wnaed o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu henwi; a

(c) bod unrhyw fethiant i adolygu'r achos yn unol â rheoliad 37 neu i gymryd camau priodol i wneud neu weithredu trefniadau y cytunwyd arnynt yn yr adolygiad yn cael ei ddwyn i sylw personau ar lefel briodol o gyfrifoldeb yn yr asiantaeth.

(6) Os bydd y plentyn yr adolygir ei achos yn dymuno dwyn camau cyfreithiol o dan y Ddeddf ar ei ran ei hun, er enghraifft, gwneud cais i'r llys i ddirymu gorchymyn lleoliad, swyddogaeth y swyddog adolygu annibynnol yw—

(a) cynorthwyo'r plentyn i gael cyngor cyfreithiol; neu

(b) sefydlu a oes oedolyn priodol yn alluog ac yn barod i weithredu i ddarparu'r cymorth hwnnw neu ddwyn camau cyfreithiol ar ran y plentyn.

(7) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu hysbysu'r swyddog adolygu annibynnol o—

(a) unrhyw fethiant arwyddocaol i wneud neu weithredu trefniadau yn unol ag adolygiad;

(b) unrhyw newid arwyddocaol mewn amgylchiadau sy'n digwydd ar ôl yr adolygiad sy'n effeithio ar y trefniadau hynny.

**Tynnu cydsyniad yn ôl**

**39.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan dynnir cydsyniad yn ôl o dan adran 19, neu adran 19 a 20 o'r Ddeddf o ran plentyn yn unol ag adran 52(8) o'r Ddeddf.

(2) Os yw paragraff (1) yn gymwys ac os yw'r asiantaeth fabwysiadu yn awdurdod lleol, pan dderbynnir y ffurflen neu'r hysbysiad a roddir yn unol ag adran 52(8) o'r Ddeddf rhaid i'r awdurdod ar unwaith adolygu ei benderfyniad i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu ac os bydd yr awdurdod, yn unol ag adran 22(1) neu (2) o'r Ddeddf yn penderfynu gwneud cais am orchymyn lleoliad o ran y plentyn, rhaid iddo ar unwaith hysbysu —

(a) y rhiant neu'r gwarcheidwad;

(b) os yw rheoliad 14(2) yn gymwys, tad y plentyn, ac

(c) os lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, y darpar fabwysiadydd y lleolir y plentyn gydag ef.

(3) Os bydd paragraff (1) yn gymwys a bod yr asiantaeth fabwysiadu yn gymdeithas fabwysiadu gofrestredig, rhaid i'r asiantaeth ar unwaith ystyried a yw'n briodol i hysbysu'r awdurdod lleol y mae'r plentyn yn byw yn ei ardal.

# RHAN 7

## COFNODION

### Storio cofnodion achos

**40.** Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu sicrhau bod y cofnodion achos a drefnwyd yn unol â rheoliadau 12 neu 22 o ran plentyn neu ddarpar fabwysiadydd a bod cynnwys y cofnodion achos hynny bob amser yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel ac yn benodol bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i rwystro'r cofnodion achos rhag cael eu lladrata, rhag datgelu nas awdurdodwyd, rhag colled neu ddistryw neu niwed iddynt neu i'w cynnwys.

### Cadw cofnodion achos

**41.** Pan wneir gorchymyn mabwysiadu ynglyn â phlentyn rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gadw'r holl gofnodion achos a luniwyd yn unol â rheoliadau 12 neu 22 am 100 mlynedd o leiaf. Mewn unrhyw achos arall rhaid i'r asiantaeth gadw'r cofnodion achos am y cyfnod hwnnw y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

### Cyfrinachedd cofnodion achos

**42.** Yn ddarostyngedig i reoliad 43, rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu drin unrhyw wybodaeth a geir, neu adroddiadau neu argymhellion neu benderfyniadau a wneir yn rhinwedd y Rheoliadau hyn yn gyfrinachol.

### Mynediad at gofnodion achos a datgelu gwybodaeth

**43.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu ddarparu'r mynediad hwnnw at ei chofnodion achos a datgelu'r wybodaeth honno sydd yn ei meddiant, y gallai fod ei hangen —

(a) i'r sawl sy'n cynnal ymchwiliad o dan adran 81 o Ddeddf 1989 (ymchwiliadau) neu adran 17 o'r Ddeddf (ymchwiliadau) at ddibenion ymchwiliad o'r fath;

(b) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(c) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 74(5) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (datgeliad), i Gomisiynydd Plant Cymru at ddibenion unrhyw archwiliad a gynhelir yn unol â Rhan V o'r Ddeddf honno;

(ch) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adrannau 29(7) a 32(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 (ymchwiliadau a datgeliad), i Gomisiynydd Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru, at ddibenion unrhyw ymchwiliad a gynhelir yn unol â Rhan III o'r Ddeddf honno;

(d) i unrhyw berson a benodwyd gan yr asiantaeth fabwysiadu at ddibenion ystyriaeth gan yr asiantaeth o unrhyw sylwadau (gan gynnwys cwynion);

(dd) i'r personau a'r awdurdodau gan y Rheoliadau hyn ac i'r graddau a bennir yn y Rheoliadau hyn;

(e) i swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru neu swyddog o CAFCASS at ddibenion cyflawni dyletswyddau'r swyddog o dan y Ddeddf;

(f) i lys y mae ganddo bŵer i wneud gorchymyn o dan y Ddeddf neu o dan Ddeddf 1989.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), caiff yr asiantaeth fabwysiadu ddarparu'r mynediad hwnnw a datgelu'r wybodaeth honno sydd yn ei meddiant, fel y gwêl yn dda at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau fel asiantaeth fabwysiadu.

(3) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu gadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw fynediad a ddarperir neu ddatgeliad a roir yn rhinwedd y rheoliad hwn.

### Trosglwyddo cofnodion achos

**44.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff yr asiantaeth fabwysiadu drosglwyddo copi o gofnod achos (neu ran ohono) i asiantaeth fabwysiadu arall pan fydd o'r farn fod hyn er lles plentyn neu ddarpar fabwysiadydd y mae'r cofnod yn ymwneud ag ef, a rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw drosglwyddiad o'r fath.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i gymdeithas fabwysiadu gofrestredig sy'n bwriadu peidio â gweithredu neu beidio â bod yn gymdeithas fabwysiadu gofrestredig drosglwyddo ar unwaith naill ai ei chofnodion achos i asiantaeth fabwysiadu arall ar ôl cael cymeradwyaeth yr awdurdod cofrestru ar gyfer trosglwyddiad o'r fath neu drosglwyddo ei chofnodion achos —

(a) i'r awdurdod lleol y lleolir prif swyddfa'r gymdeithas yn ei ardal; neu

(b) yn achos cymdeithas sy'n cyfuno â chymdeithas fabwysiadu gofrestredig arall i ffurfio cymdeithas fabwysiadu gofrestredig newydd, i'r corff newydd hwnnw.

(3) Os yw cymdeithas fabwysiadu gofrestredig yn bwriadu peidio â darparu ar gyfer mabwysiadu plant ond ei bod wedi'i chofrestru i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu caiff gadw ei holl gofnodion achos ar ôl cael yn gyntaf gymeradwyaeth yr awdurdod cofrestru yn ysgrifenedig ar gyfer eu cadw.

(4) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu y trosglwyddir cofnodion achos iddi yn rhinwedd paragraff (2)(a) neu (b) hysbysu'r awdurdod cofrestru yn ysgrifenedig o'r cyfryw drosglwyddiad.

### Cymhwyso rheoliadau 41 i 43

**45.** Nid yw rheoliadau 41 i 43 yn gymwys i gofnodion achos sy'n ddarostyngedig i'r rheoliadau a wneir o dan adrannau 56 i 68 o'r Ddeddf.

# RHAN 8

## AMRYWIOL

### Addasu Deddf 1989 o ran mabwysiadu

**46.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys —

(a) pan awdurdodir awdurdod lleol i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu; neu

(b) pan fydd plentyn a leolwyd ar gyfer ei fabwysiadu gan awdurdod lleol yn llai na chwe wythnos oed.

(2) Pan fydd paragraff (1) yn gymwys—

(a) ni fydd adran 22(4) (b) o Ddeddf 1989 yn gymwys;

(b) bydd adran 22(4)(c) o Ddeddf 1989 yn gymwys fel pe bai'r canlynol yn cael ei fewnosod yn lle'r is-baragraff hwnnw "(c) any prospective adopter with whom the local authority has placed the child for adoption.";

(c) bydd adran 22(5)(b) o Ddeddf 1989 yn gymwys fel pe bai'r geiriau "(4)(c) and (d)" yn cael eu mewnosod yn lle "(4)(b) to (d)"; ac

(ch) ni fydd paragraffau 15 a 21 o Atodlen 2 i Ddeddf 1989 yn gymwys.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan awdurdodir cymdeithas fabwysiadu gofrestredig i leoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu pan fydd plentyn a leolwyd ar gyfer ei fabwysiadu gan gymdeithas fabwysiadu gofrestredig yn llai na 6 wythnos oed.

(4) Pan fydd paragraff (3) yn gymwys —

(a) bydd adran 61(2)(a) o Ddeddf 1989 yn effeithiol o ran y plentyn p'un a letyir ef gan neu ar ran y gymdeithas ai peidio;

(b) ni fydd adran 61(2)(b) o Ddeddf 1989 yn gymwys;

(c) bydd adran 61(2)(c) o Ddeddf 1989 yn gymwys fel pe mewnosodwyd yn lle'r is-baragraff hwnnw "(c) any prospective adopter with whom the registered adoption society has placed the child for adoption.".

**Cyswllt**

**47.**—(1) Os yw'r asiantaeth fabwysiadu wedi penderfynu o dan adran 27(2) o'r Ddeddf i wrthod caniatáu'r cyswllt a fyddai fel arall yn ofynnol yn rhinwedd gorchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf, rhaid i'r asiantaeth, cyn gynted ag y gwneir y penderfyniad, hysbysu'r personau a bennir ym mharagraff (4) yn ysgrifenedig o'r rhannau hynny o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (5) yn ôl fel y barna'r asiantaeth bod angen i'r personau hynny gael gwybod.

(2) Gellir peidio â dilyn telerau gorchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf drwy gytundeb rhwng yr asiantaeth fabwysiadu ac unrhyw berson y mae'r gorchymyn yn darparu cyswllt iddo â'r plentyn yn yr amgylchiadau canlynol ac yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol —

(a) os yw'r plentyn yn ddigon hen a'i fod yn deall digon, yn ddarostyngedig i gytundeb y plentyn;

(b) os lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, yn ddarostyngedig i ymgynghori blaenorol â'r darpar fabwysiadydd y lleolir y plentyn gydag ef ar gyfer ei fabwysiadu; ac

(c) hysbysiad ysgrifenedig gan yr asiantaeth i'r personau a bennir ym mharagraff (4) o'r rhannau hynny o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (5) yn ôl fel y barna'r asiantaeth bod angen i'r personau hynny gael gwybod, o fewn saith niwrnod o'r cytundeb i beidio â dilyn telerau'r gorchymyn.

(3) Os bydd yr asiantaeth fabwysiadu yn amrywio neu'n atal unrhyw drefniadau a wnaed (heblaw o dan orchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf) er mwyn caniatáu cyswllt i unrhyw berson â'r plentyn, rhaid i'r asiantaeth hysbysu'r personau a bennir ym mharagraff (4) yn ysgrifenedig o'r rhannau hynny o'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (5) yn ôl fel y barna'r asiantaeth bod angen i'r personau hynny gael gwybod.

(4) Mae'r personau canlynol yn rhai a bennir at ddibenion paragraffau (1) a (2) —

(a) y plentyn os yw'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn ei fod yn ddigon hen a'i fod yn deall digon;

(b) rhiant y plentyn;

(c) rhiant neu warcheidwad y plentyn;

(ch) unrhyw berson y mae'r gorchymyn o dan adran 26 o'r Ddeddf yn darparu cyswllt iddo;

(d) unrhyw berson y caniataodd yr asiantaeth gyswllt iddo â'r plentyn;

(dd) os lleolir y plentyn ar gyfer ei fabwysiadu, y darpar fabwysiadydd;

(e) unrhyw berson arall y mae'r asiantaeth o'r farn bod ei ddymuniadau a'i deimladau yn berthnasol.

(5) Mae'r wybodaeth ganlynol yn un a bennir at ddibenion paragraffau 1, 2 a 3 —

(a) penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu;

(b) dyddiad y penderfyniad;

(c) y rhesymau dros y penderfyniad;

(ch) pa hyd y pery'r penderfyniad (os yw'n gymwys).

**Dirymu**

**48.** Drwy hyn dirymir Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) 2001(**14**), Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003(**15**) a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygio) (Cymru) 2003(**16**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**17**)

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

10 Mai 2005

(**14**) OS 2001/1272 (Cy.71)
(**15**) OS 2003/1634 (Cy.176)
(**16**) OS 2003/3223 (Cy.306)
(**17**) 1998 p.38.